# Sgiliau Hanfodol Cymru

## TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU

**Nodiadau pwysig:**

1. Rhaid darllen y ddogfen hon ochr yn ochr â'r dogfennau 'Ymhelaethu ar ofynion y dystiolaeth' a 'Diffiniadau Gorfodol TGCh' sy'n rhoi manylion mandadol am bob cydran ac sy'n rhan hanfodol o'r safonau.
2. Ble mae'r safonau yn cyfeirio at 'gwybodaeth', gall hyn olygu testun a/neu ddelwedd a/neu rifau.

## Lefel Mynediad 1

Mae hyn yn golygu dangos eich bod yn gallu:

- defnyddio systemau TGCh
- darganfod, dewis a chyfnewid gwybodaeth gan ddefnyddio TGCh
- datblygu a chyflwyno gwybodaeth gan ddefnyddio TGCh

mewn sefyllfaoedd cyfarwydd sydd yn gysylltiedig ag addysg, hyfforddiant, gwaith a swyddogaethau cymdeithasol.

### TGChM1.1 Defnyddio systemau TGCh

**Mae'n rhaid i chi roi tystiolaeth eich bod chi'n medru:**

**TGChM1.1.1**
Deall tasg syml a roddwyd i chi sy'n gofyn am ddefnyddio TGCh.

**TGChM1.1.2**
Defnyddio TGCh i'ch helpu i ymgymryd â'r dasg.

**TGChM1.1.3**
Dilyn arferion gweithio saff, iach a diogel bob amser.

**Er mwyn dangos eich bod chi'n gymwys, mae angen i chi wybod sut i:**

- wneud yn siŵr eich bod yn deall y dasg a roddwyd i chi
- defnyddio caledwedd i'ch helpu i ymgymryd â'r dasg
- adnabod a defnyddio nodweddion rhyngwyneb
- defnyddio'r adnodd 'help' pan fo hynny'n briodol
- gofyn am gymorth pan fo'i angen arnoch
- dilyn arferion gweithio saff ac iach sy'n cael eu dangos i chi.

### TGChM1.2 Darganfod, dewis a chyfnewid gwybodaeth

**Mae'n rhaid i chi roi tystiolaeth eich bod chi'n medru:**

**TGChM1.2.1**
Adnabod ffynonellau priodol o wybodaeth sy'n seiliedig ar TGCh.

**TGChM1.2.2**
Cael gwybodaeth o ffynhonnell sy'n seiliedig ar TGCh.

**TGChM1.2.3**

Derbyn cyfathrebiadau syml sy'n seiliedig ar TGCh.

**Er mwyn dangos eich bod chi'n gymwys, mae angen i chi wybod sut i:**

- adnabod ffynonellau o wybodaeth sy'n briodol i'ch tasg
- cael gwybodaeth syml o ffynhonnell briodol sy'n seiliedig ar TGCh
- mewnbynnu a chadw gwybodaeth syml er mwyn dod o hyd iddi eto
- derbyn cyfathrebiad syml sy'n seiliedig ar TGCh.

## TGChM1.3 Datblygu a chyflwyno gwybodaeth

**Mae'n rhaid i chi roi tystiolaeth eich bod chi'n medru:**

**TGChM1.3.1**
Mewnbynnu gwybodaeth syml sy'n seiliedig ar TGCh i bwrpas.

**TGChM1.3.2**
Cyflwyno gwybodaeth i bwrpas gan ddefnyddio TGCh.

**Er mwyn dangos eich bod chi'n gymwys, mae angen i chi wybod sut i:**

- fewnbynnu a golygu gwybodaeth syml
- canfod a chywiro unrhyw wallau syml
- cyflwyno gwybodaeth.

**Datganiad mynediad**
Efallai na fydd ymgeiswyr ag anableddau penodol yn gallu dangos eu bod yn gymwys drwy gyflwyno yr holl dystiolaeth yn y dull a nodir yn y safonau hyn.

Ar gyfer yr ymgeiswyr hyn gellir gwneud addasiadau rhesymol i ofynion y dystiolaeth lle bo hynny'n briodol. Mewn rhai achosion, mae'n bosib y gellir caniatáu eithrio. Ceir manylion pellach am addasiadau rhesymol ac eithrio ar gyfer ymgeiswyr ag anableddau penodol mewn dogfen ar wahân ar ymhelaethu.